

2020 Rhif (Cy.)

2020 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042
(Cylchfan Court Farm, Torfaen i
Gylchfan Hardwick, Sir Fynwy)
(Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro
a Dim Goddiwedd) 2020

The A4042 Trunk Road (Court
Farm Roundabout, Torfaen to
Hardwick Roundabout,
Monmouthshire) (Temporary
Speed Restrictions and No
Overtaking) Order 2020

Gwnaed 9 Mawrth 2020

Made 9 March 2020

Yn dod i rym 16 Mawrth 2020

Coming into force 16 March 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd yr A4042 Casnewydd i Amwythig, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant lengths of the A4042 Newport to Shrewsbury Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be restricted and/or prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Court Farm, Torfaen i Gylchfan Hardwick, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau Cyflymder Dros Dro a Dim Goddiwedd) 2020 a daw i rym ar 16 Mawrth 2020.

1. The title of this Order is the A4042 Trunk Road (Court Farm Roundabout, Torfaen to Hardwick Roundabout, Monmouthshire) (Temporary Speed Restrictions and No Overtaking) Order 2020 and it comes into force on 16 March 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984⁽²⁾ neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o lloedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 16 Mawrth 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod o'r gwaith eu symud ymaith;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A4042 Casnewydd i Amwythig;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfngiadau a Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984 Act⁽²⁾ or in connection with the works giving rise to this Order;
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A4042 Newport to Shrewsbury Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 16 March 2020 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are removed.

Restrictions and Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 10 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 yn weithredol.

Atal Dros Dro

6. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 a 2 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 3 a 4 yn weithredol.

Cymhwyso

7. —(1) Nid yw'r cyfyngiadau a'r gwaharddiad yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 9 Mawrth 2020

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

5. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order during such times as the restriction referred to in article 4 is in operation.

Suspension

6. Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 and 2 to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 3 and 4 are in operation.

Application

7.—(1) The restrictions and prohibition in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

Duration of this Order

8. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 9 March 2020

Richard Morgan
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

ATODLEN 1

Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 49 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Court Farm hyd at bwynt 20 metr i'r de o'i chyffordd â Croes y Pant Lane ger Penperlenni.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 107 o fetrau i'r de o ganolbwynt y fynedfa i'r annedd o'r enw Maes-y-Beryn hyd at bwynt 18 metr i'r de o

SCHEDULE 1

Temporary 40mph Speed Limit

The length of the trunk road that extends from a point 49 metres north east of the centre point of Court Farm Roundabout to a point 20 metres south of its junction with Croes Y Pant Lane near Penperlenni.

The length of the trunk road that extends from a point 107 metres south of the centre point of the entrance to the dwelling known as Maes-y-Beryn to a point 18

ganolbwynt ei chyffordd â'r Briffordd Sirol i Faerdy.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 110 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Phen-Heol-y-Bwra hyd at bwynt 106 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4269 i Lan-ffwyst.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 201 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Hardwick Lane hyd at bwynt 35 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cylchfan Hardwick.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Gwahardd Goddieddyd yn ystod Gwaith Confoi

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 49 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Court Farm hyd at bwynt 35 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cylchfan Hardwick.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4042 (CYLCHEFAN COURT FARM, TORFAEN I GYLCHEFAN HARDWICK, SIR FYNWY) (CYFYNGIADAU CYFLYMDER DROS DRO A DIM GODDIWEDDYD) 2020

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A4042, neu gerllaw iddi, rhwng Cylchfan Court Farm, Torfaen a Chylchfan Hardwick, Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro:

- i) gosod terfyn cyflymder o 40 mya, fel sy'n ofynnol, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn;
- ii) gosod terfyn cyflymder o 10 mya yn ystod gwaith confoi ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn; a
- iii) gwahardd pob cerbyd rhag goddiweddyd yn ystod gwaith confoi ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol yn ysbeidiol dros nos (20:00 o'r gloch hyd 06:00 o'r gloch) o 16 Mawrth 2020 hyd 10 Ebrill 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud

metres south of the centre point of its junction with the County Highway to Maerdy.

The length of the trunk road that extends from a point 110 metres north west of the centre point of its junction with Pen-Heol-y-Bwra to a point 106 metres south of the centre point of its junction with the B4269 to Llanfoist.

The length of the trunk road that extends from a point 201 metres south of the centre point of its junction with Hardwick Lane to a point 35 metres south of the centre point of Hardwick Roundabout.

SCHEDULE 2

Temporary 10 mph Speed Limit & Prohibition of Overtaking during Convoy Working

The length of the trunk road that extends from a point 49 metres north east of the centre point of Court Farm Roundabout to a point 35 metres south of the centre point of Hardwick Roundabout.

THE A4042 TRUNK ROAD (COURT FARM ROUNDAABOUT, TORFAEN TO HARDWICK ROUNDAABOUT, MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS AND NO OVERTAKING) ORDER 2020

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A4042 trunk road between Court Farm Roundabout, Torfaen and Hardwick Roundabout, Monmouthshire.

The effect of the Order will be to temporarily:

- i) impose a 40 mph speed limit, as required, on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice;
- ii) impose a 10 mph speed limit during convoy working on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Notice; and
- iii) prohibit all vehicles from overtaking during convoy working on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Notice.

It is expected that the restrictions and prohibition, which will be signed accordingly, will operate intermittently overnight (20:00 hours until 06:00 hours) from 16 March 2020 until 10 April 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trawnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trawnidiaeth
Llywodraeth Cymru

Although the proposed Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

ATODLEN 1

Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 49 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan Court Farm hyd at bwynt 20 metr i'r de o'i chyffordd â Croes y Pant Lane ger Penperllenni.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 107 o fetrau i'r de o ganolbwynt y fynedfa i'r annedd o'r enw Maes-y-Beryn hyd at bwynt 18 metr i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r Briffordd Sirol i Faerdy.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 110 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Phen-Heol-y-Bwra hyd at bwynt 106 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4269 i Lan-ffwyst.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 201 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Hardwick Lane hyd at bwynt 35 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cylchfan Hardwick.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 10 mya Dros Dro a Gwahardd Goddiweddyd yn ystod Gwaith Confoi

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 49 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt Cylchfan

SCHEDULE 1

Temporary 40mph Speed Limit

The length of the trunk road that extends from a point 49 metres north east of the centre point of Court Farm Roundabout to a point 20 metres south of its junction with Croes Y Pant Lane near Penperllenni.

The length of the trunk road that extends from a point 107 metres south of the centre point of the entrance to the dwelling known as Maes-y-Beryn to a point 18 metres south of the centre point of its junction with the County Highway to Maerdy.

The length of the trunk road that extends from a point 110 metres north west of the centre point of its junction with Pen-Heol-y-Bwra to a point 106 metres south of the centre point of its junction with the B4269 to Llanfoist.

The length of the trunk road that extends from a point 201 metres south of the centre point of its junction with Hardwick Lane to a point 35 metres south of the centre point of Hardwick Roundabout.

SCHEDULE 2

Temporary 10 mph Speed Limit & Prohibition of Overtaking during Convoy Working

Court Farm hyd at bwynt 35 o fetrau i'r de o ganolbwynt Cylchfan Hardwick.

The length of the trunk road that extends from a point 49 metres north east of the centre point of Court Farm Roundabout to a point 35 metres south of the centre point of Hardwick Roundabout.